# JENKINS, JOHN (1821 - 1896) golygydd a chyfieithydd, Llanidloes

**Enw:** John Jenkins
**Dyddiad geni:** 1821
**Dyddiad marw:** 1896
**Rhiant:** Edward Jenkins
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** golygydd a chyfieithydd
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Elwyn Evans

Ganwyd ym mis Tachwedd yn fab i Edward Jenkins, gwneuthurwr gwlanen. Addysgwyd ef yn Amwythig ac yna aeth i'w hyfforddi at John Owen, cyfreithiwr, y Drenewydd. Yn 1842 dychwelodd i Lanidloes ac ymsefydlodd yno. Daliodd nifer o swyddi cyfreithiol a hefyd swyddi ynglŷn â llywodraeth leol ac addysg.

Ymhlith y pamffledi a gyhoeddwyd ganddo ceir *Law Reform*, 1845; *National Education*, 1848; *The Laws Relating to Religious Liberty*, 1880; *The Laws Concerning Religious Worship*, 1885. Ymddangosodd ei draethawd, ' The Feudal System ' yn ail argraffiad *Some Specimens of the Poetry of the Antient Welsh Bards, Translated into English, with Notes* gan Ieuan Brydydd Hir (Llanidloes, O. Mills 1862). Yn 1873 cyhoeddodd ei gyfieithiadau o farddoniaeth Cymru, *The Poetry of Wales* (Llanidloes, J. Pryse).

Bu farw 22 Chwefror 1896.

## Awdur

**Elwyn Evans**

## Ffynonellau

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1896, 298

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Jenkins, Llanidloes

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733482

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Evans, E., (1953). JENKINS, JOHN (1821 - 1896) golygydd a chyfieithydd, Llanidloes. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Medi 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JENK-JOH-1821

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government